4. Argymhellodd swyddogion proffesiynol y Cyngor y dylid cymeradwyo'r cais, ond gwrthodwyd rhoi caniatâd cynllunio iddo dim ond oherwydd bod y cynnig yn groes i bolisi GP2 *Terfynau Datblygu* Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) mabwysiedig Sir

Gaerfyrddin gan ei fod wedi'i leoli y tu allan i derfyn datblygu Sanclêr, fel y'i diffinnir yn y Cynllun.

5. Mae polisi GP2 y CDLI yn diffinio'r terfynau datblygu ar gyfer amryw fathau o aneddiadau o fewn fframwaith aneddiadau dynodedig Sir Gaerfyrddin. Mae'n datgan y bydd cynigion o fewn terfynau datblygu diffiniedig yn cael eu caniatáu, yn amodol ar bolisiau a chynigion eraill y Cynllun, polisiau cenedlaethol ac ystyriaethau eraill perthnasol. Yn ôl y testun sy'n cyd-fynd â'r datganiad ysgrifenedig, mae dibenion diffinio terfynau datblygu yn cynnwys atal datblygiad amhriodol yng nghefn gwlad; atal aneddiadau rhag cyfuno, datblygiad hirgul neu batrwm datblygu tameidiog; a hybu defnydd effeithiol a phriodol o dir sy'n canolbwyntio twf o fewn aneddiadau diffiniedig.
6. O'r uchod, mae'n amlwg bod polisi GP2 yn ceisio cyfeirio datblygiad newydd yn bennaf at leoliadau o fewn terfynau datblygu'r aneddiadau a amlygwyd gan y Cynllun. Er bod hynny'n golygu ei bod yn rhesymegol dod i'r casgliad na chaniateir cynigion y tu allan i derfynau datblygu aneddiadau yn gyffredinol, nid yw polisi GP2 yn gwahardd pob datblygiad yn y cyfryw leoliadau yn llwyr.
7. Mae'r apelydd yn cyfeirio at bolisi EMP2 *Cynigion Cyflogaeth Newydd* y CDLI, sy'n caniatáu (yn ddarostyngedig i amodau penodol) datblygiadau cyflogaeth sydd o fewn, gerllaw neu'n uniongyrchol gysylltiedig â therfyn datblygu anheddiad diffiniedig. Fodd bynnag, credaf fod y rhan hon o'r CDLI wedi'i hanelu'n bennaf at ddatblygiadau cyflogaeth B1-B8 yn hytrach na defnyddiau Dosbarth A3, fel y cynigir yma. O ganlyniad, er y byddai'r cyfleusterau bwyty a siop goffi arfaethedig yn sicr yn dod â chyfleoedd cyflogaeth arwyddocaol i'r ardal, nid ydynt yn syrthio'n daclus o fewn cwmpas polisi EMP2 y CDLI, fel y dadleuir gan yr apelydd.
8. Rwyf yn llwyr gydnabod awydd y Cyngor i sicrhau bod datblygiad newydd yn cael ei leoli'n gynaliadwy, ei fod yn cydweddu'n dda â'r patrwm datblygu presennol a bod cymeriad cefn gwlad yn cael ei warchod rhag datblygiad diangen. Fodd bynnag, mae cyfiawnhad cryf i'r cynnig yn yr achos hwn, er gwaethaf ei leoliad y tu allan i'r terfyn datblygu diffiniedig. Prif ddiben y datblygiad yw darparu cyfleusterau lluniaeth gyrru trwodd a bwyta dan do cyfunol i bobl sy'n teithio ar brif lwybrau strategol yr A40 a'r A477 trwy dde-orllewin Cymru. Mae'r ddau lwybr yn cludo llawer iawn o draffig gwyliau, traffig twristiaeth, traffig masnachol a thraffig arall, ac maen nhw'n bwysig iawn i'r economi ranbarthol. Mae lleoliad safle'r apêl, lle mae'r A477 yn ymuno â'r A40, yn lleoliad posibl amlwg ar gyfer cyfleuster o'r fath; nid yw'r Cyngor yn anghytuno ac nid yw'n awgrymu bod lleoliad amgen yn bodoli yn rhywle arall. Ystyriaf fod gwrthwynebiad y Cyngor i'r cynnig, yn seiliedig ar ei leoliad y tu allan i'r terfyn datblygu diffiniedig, wedi'i negyddu gan ofynion lleoliadol clir y cynnig yn gysylltiedig â'r rhwydwaith ffyrdd strategol.
9. At hynny, er bod prif ran y safle y tu allan i derfynau datblygu'r anheddiad, mae'n cyffinio ag ardal adeiledig Sanclêr ac o fewn pellter cerdded o graidd y ganolfan wasanaeth lle mae cyfleusterau lleol eraill yn bodoli. Mae'r safle hefyd wedi'i leoli'n union ar draws yr A4066 i Sanclêr o'r Travelodge presennol. At ei gilydd, ystyriaf fod y safle'n addas o ran ystyriaethau hygyrchedd ac y byddai'r cynnig yn cyfrannu at gynaliadwyedd Sanclêr trwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth ychwanegol a chynyddu ystod a nifer y cyfleusterau lleol. Er bod rhai gwrthwynebwyr yn mynegi pryder ynghylch effaith niweidiol bosibl ar fusnesau presennol yn Sanclêr, nid yw cystadleuaeth rhwng busnesau unigol yn ystyriaeth gynllunio berthnasol. Nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn niweidio hyfywedd neu fywiogrwydd y ganolfan fanwerthu, ac nid yw'r Cyngor yn ceisio dadlau hynny. Ar sail y dystiolaeth sydd ger fy mron, rwyf yn fodlon nad oes safle dilyniannol amgen yn bodoli yn

berthynol i ganol y dref sy'n addas i gynnal y cyfleusterau gyrru trwodd/bwyta dan do arfaethedig.

10. Er bod y safle wedi'i leoli y tu allan i'r terfynau datblygu a amlygwyd yn y CDLI, mae cymeriad yr ardal o'i amgylch yn debyg i gyrion anheddiad yn gyffredinol yn hytrach na chefn gwlad agored, ac mae datblygiad i'w weld yn agos i'r rhan fwyaf o gyfeiriadau. Nid yw'r ardal yn meddu ar unrhyw ddynodiad sy'n dangos bod gan y dirwedd unrhyw sensitifrwydd neu werth arbennig. At hynny, mae cymeriad datblygedig yr ardal o amgylch y safle yn debygol o gael ei atgyfnerthu wrth i'r safle tai ar ei ochr ogledd-ddwyreiniol gael ei gyflawni. O ystyried presenoldeb y dyraniad tai hwn, ni fyddai cynnig yr apêl yn arwain at erydu'r bwloch sy'n gwahanu terfynau datblygu Sanclêr a Phwll Trap mewn ffordd berthnasol niweidiol. I grynhoi, byddai'r cynnig yn cydweddu'n dda â ffurf adeiledig bresennol yr ardal ac ni fyddai'n niweidio ei chymeriad a'i golwg.
11. At ei gilydd, felly, er bod safle'r cynnig y tu allan i derfyn datblygu diffiniedig Sanclêr i raddau helaeth, deuf i'r casgliad bod gofyniad lleoliadol penodol y datblygiad, o ganlyniad i'w brif swyddogaeth fel cyfleuster gwasanaeth ar y rhwydwaith ffyrdd strategol, yn gyfiawnhad cymhellol a thra phwysig dros leoli'r datblygu y tu hwnt i'r terfyn datblygu. Ar y sail hon, deuf i'r casgliad bod cyfiawnhad dros leoliad y datblygiad arfaethedig. Gan y byddai'r datblygiad arfaethedig hefyd wedi'i leoli ar gyrion yr ardal adeiledig ac yn cyd-weddu'n dda â ffurf bresennol yr anheddiad, deuf i'r casgliad bod y cynnig yn cyd-fynd yn fras â pholisi GP2 y CDLI a'i fod yn cydymffurfio â'r Cynllun yn ei gyfanrwydd.
12. Rwyf wedi ystyried yr holl faterion eraill wrth ddod i'm penderfyniad. Ategir y trefniadau mynediad i'r safle gan dystiolaeth Asesiad Trafnidiaeth. Rwyf yn fodlon ar ddigonoldeb y dystiolaeth hon a bod y trefniadau mynediad arfaethedig ar gyfer cerbydau a cherddwyr yn foddhaol ac yn gyson â safonau cenedlaethol diogelwch ar y priffyrdd, yn seiliedig ar yr amodau a arolygwyd yn y lleoliad hwn. Mae'r datblygiad yn rhoi sylw i ystyriaethau ecolegol perthnasol, gan gynnwys effeithiau posibl ar yr Ardal Cadwraeth Arbennig gyfagos, y cynhaliwyd asesiad priodol yn ei chylch. Mae'r trefniadau parcio arfaethedig yn dderbyniol, ac er bod angen rhai manylion ychwanegol ynglŷn â materion fel tirweddu a draenio, gellir datrys y materion hyn trwy osod amodau.
13. Mae'r apelydd wedi cyflawni ymgymeriad unochrog adran 106 ynglŷn â chyfraniad ariannol i gyllido golau i gerddwyr wrth y gyffordd â goleuadau ychydig gannoedd o fetrau i'r dwyrain o'r safle. Fodd bynnag, er gwaethaf yr ymgymeriad, mae'r apelydd yn dadlau na fyddai gofyniad ar gyfer cyfraniad o'r fath yn bodloni'r profion ar gyfer rhwymedigaethau cynllunio. Er y cydnabyddaf fod y Cyngor wedi ceisio'r cyfraniad yn dilyn sylwadau'r Awdurdod Priffyrdd, nid oes digon o dystiolaeth ger fy mron i ddod i'r casgliad bod angen darparu golau i gerddwyr wrth y gyffordd â goleuadau i wneud y cynnig yn dderbyniol o safbwynt cynllunio. Mae'r gyffordd â goleuadau cryn bellter oddi wrth y safle ac nid oes dystiolaeth i ddangos y byddai'r datblygiad yn newid yr amodau wrth y gyffordd i'r fath raddau a fyddai'n bygwth ei gweithrediad diogel parhaus ar ei ffurf bresennol. Felly, nid yw fy mhenderfyniad i roi caniatâd cynllunio yn dibynnu ar yr ymgymeriad unochrog.
14. Rwyf wedi ystyried y ddyletswydd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, o dan adran 3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015"). Rwyf o'r farn, yn ddarostyngedig i'r amodau yr wyf wedi penderfynu y dylid eu gosod, bod fy mhenderfyniad i ganiatáu'r apêl a rhoi caniatâd cynllunio yn cyd-fynd â'r amcanion a amlygwyd gan Weinidogion Cymru, sef cefnogi busnesau i sbarduno ffyniant, mynd i'r

afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol, creu cymunedau cydnerth a darparu seilwaith modern a chysylltiedig.

15. Rwyf wedi ystyried yr holl faterion eraill a godwyd gan bartion eraill â buddiant sydd wedi gwneud sylwadau, naill ai ar adeg y cais neu'r apêl. Fodd bynnag, ni welaf unrhyw beth yn y cyflwyniadau hynny sy'n newid cydbwysedd fy nghasgliadau ar y prif fater, fel yr amlinellwyd uchod.
16. Rwyf wedi ystyried pa amodau sy'n angenrheidiol yn ychwanegol at yr amodau safonol sy'n amlygu'r terfyn amser ar gyfer cychwyn a'r lluniadau a'r manylion cymeradwy, o ganlyniad i'm penderfyniad i ganiatáu'r apêl. Cytunaf fod angen amodau ynglŷn â'r mynediad i'r safle (gan gynnwys lleiniau gwelededd) a chylchrediad mewnol, ac ardaloedd parcio a throi, i sicrhau bod yr elfennau hyn o'r datblygiad yn cael eu darparu'n briodol (amodau 3-5). Mae angen amodau sy'n ymwneud â Chynllun Rheoli Traffig Adeiladu, Cynllun Rheoli Cyflawni a gwelliannau i'r llwybr troed ar yr A4066 hefyd er mwyn diogelwch ar y priffyrdd (6-8). Mae amodau yn ymwneud â draenio dŵr brwnt a dŵr wyneb (9-10), gwarchod nodweddion presennol y dirwedd a thirweddau newydd (11-12), rheoleiddio sŵn (13-16), archwiliadau archaeolegol (17) ac atal llygredd (18) yn angenrheidiol hefyd, i sicrhau derbynioldeb y datblygiad mewn perthynas â'r materion hyn.
17. Am y rhesymau a roddwyd ac ar ôl ystyried yr holl faterion a godwyd, caniatâf yr apêl.

Alwyn B Nixon

Arolygydd

Caniatâd cynllunio wedi'i roi gan benderfyniad Apêl APP/M6825/A/19/3240281:

Atodlen amodau

- 1) Bydd y datblygiad yn dechrau o fewn pum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.
- 2) Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau cymeradwy canlynol:
 - Cynllun bloc (2002N) a dderbyniwyd ar 7 Mai 2019;
 - Cynllun safle presennol (2003H) a dderbyniwyd ar 7 Mai 2019;
 - Cynllun lleoliad (2001J) a dderbyniwyd ar 7 Mai 2019;
 - Cynllun safle arfaethedig (2004P) a dderbyniwyd ar 7 Mai 2019;
 - Prif gynllun safle (2067L) a dderbyniwyd ar 7 Mai 2019;
 - Adroddiad datblygiad coedyddiaeth dyddiedig mis Ebrill 2019 a dderbyniwyd ar 7 Mai 2019;
 - Cynllun plannu a threfniant cyffredinol (210) a dderbyniwyd ar 7 Mai 2019;
 - Cynllun cysyniad tirweddau dyddiedig mis Mawrth 2019 a dderbyniwyd ar 7 Mai 2019;

- Adroddiad Crynodeb o Asesiad Trafnidiaeth dyddiedig 9 Mai a dderbyniwyd ar 10 Mai 2019;
- Cynllun trychiadau A, B ac C (8180424/4200) a dderbyniwyd ar 15 Tachwedd 2018;
- Cynllun arolwg safle (dalen 1 o 2) (8180424/4101) a dderbyniwyd ar 15 Tachwedd 2018;
- Cynllun arolwg safle (dalen 2 o 2) (8180424/4102) a dderbyniwyd ar 15 Tachwedd 2018;
- Adroddiad draenio dyddiedig mis Medi 2018 a dderbyniwyd ar 31 Hydref 2018;
- Strategaeth ddraenio (dalen 1 o 2) (SK05 P4) a dderbyniwyd ar 31 Hydref 2018;
- Strategaeth ddraenio (dalen 2 o 2) (SK06 P4) a dderbyniwyd ar 31 Hydref 2018;
- Cynllun rheoli sbwriel a dderbyniwyd ar 1 Mehefin 2019;
- Asesiad o effaith sŵn dyddiedig mis Mai 2018 a dderbyniwyd ar 22 Mai 2018;
- Adroddiad archaeoleg dyddiedig mis Gorffennaf 2017 a dderbyniwyd ar 24 Ebrill 2018;
- Manylion ffensys gyda llun a dderbyniwyd ar 6 Mawrth 2018;
- Gweddau arfaethedig McDonalds (2005A) a dderbyniwyd ar 6 Mawrth 2018;
- Gosodiad mewnol arfaethedig McDonalds (2006A) a dderbyniwyd ar 6 Mawrth 2018;
- Gosodiad goleuadau arfaethedig ac atodlen (DWG01) a dderbyniwyd ar 6 Mawrth 2018;
- Manylion rhwystrau a pholion lampau nodweddiadol a dderbyniwyd ar 6 Mawrth 2018;
- Cyfarpar chwarae awyr agored a dderbyniwyd ar 6 Mawrth 2018;
- Datganiad dylunio a mynediad (Terfynol V5) a dderbyniwyd ar 6 Mawrth 2018;
- Datganiad cynllunio a dilyniannol (Terfynol V5) a dderbyniwyd ar 6 Mawrth 2018;
- Asesiad trafndiaeth (Chwefror 2018 Rhan 1 o 2) a dderbyniwyd ar 6 Mawrth 2018;
- Asesiad trafndiaeth (Chwefror 2018 Rhan 2 o 2) a dderbyniwyd ar 6 Mawrth 2018;
- Balwstrad Costa (Balwstrad-01) a dderbyniwyd ar 14 Tachwedd 2017;
- Canopi COD DT Costa a dderbyniwyd ar 14 Tachwedd 2017;
- Gweddau Costa (1800(ochr)-01C) a dderbyniwyd ar 14 Tachwedd 2017;
- Cynllun trefniant cyffredinol Costa (1800(ochr)-02C) a dderbyniwyd ar 14 Tachwedd 2017;

- Cynllun to Costa (1800(ochr)-03B a dderbyniwyd ar 14 Tachwedd 2017;
 - Diagram Offer Echdynnu Cegin McDonalds (1001) a dderbyniwyd ar 14 Tachwedd 2017;
 - Llyfryn – Rhagfyr 2016 – Alpaidd – ymylon sgwâr a dderbyniwyd ar 14 Tachwedd 2017;
 - EQ003 Ffrâm chwarae a dderbyniwyd ar 14 Tachwedd 2017;
 - Dodrefn patio Euroline McDonalds a dderbyniwyd ar 14 Tachwedd 2017;
 - Uned gasét Mitsubishi – manylion nodweddiadol a dderbyniwyd ar 14 Tachwedd 2017;
 - Ymbarél dynnol Poseidon a dderbyniwyd ar 14 Tachwedd 2017;
 - Cynfas ymbarél dynnol Poseidon a dderbyniwyd ar 14 Tachwedd 2017;
 - Mainc hir, stôl a bwrdd UHS a dderbyniwyd ar 14 Tachwedd 2017;
 - Aseiad ecolegol dyddiedig mis Gorffennaf 2017 a dderbyniwyd ar 14 Tachwedd 2017;
 - Offer Rheoli Arogleuon Cegin McDonalds a dderbyniwyd ar 14 Tachwedd 2017;
 - Gosodiad to HVAC McDonalds gyda lluniad gwanhau (02) a dderbyniwyd ar 10 Gorffennaf 2019.
- 3) Cyn i'r datblygiad a gymeradwyir drwy hyn gael ei feddiannu, bydd y ffyrdd mynediad, y troedffyrdd a'r llwybrau troed o'r briffordd bresennol sy'n angenrheidiol yn cael eu gosod allan a'u hadeiladu yn unol â'r cynlluniau a gymeradwyir drwy hyn hyd at lefel haen waelod o leiaf, a bydd y lleiniau gweledd yn cael eu darparu.
- 4) Cyn i draffig cerbydol ddefnyddio'r fynedfa mewn unrhyw ffordd, bydd lleiniau gweledd o 2.4 metr x 43 metr i'r ochr orllewinol a 2.4 metr x 57 metr i'r ochr ddwyreiniol o'r llinell ganol mewn perthynas ag ymyl agosaf y ffordd gerbydau, yn cael eu ffurfio a'u cadw bob amser wedi hynny. Ni chaniateir unrhyw rwystr uwchlaw 0.9 metr o fewn ardal y llain weledd ar unrhyw adeg.
- 5) Bydd y lleoedd parcio, yr ardaloedd troi a'r gosodiad cylchredeg a ddangosir ar y cynlluniau cymeradwy yn cael eu darparu cyn i'r datblygiad a gymeradwyir drwy hyn ddechrau cael ei ddefnyddio. Byddant yn cael eu cadw, yn ddirwystr, at y dibenion hyn wedi hynny.
- 6) Cyn i unrhyw ran o'r datblygiad ddechrau cael ei defnyddio, bydd Cynllun Rheoli Cyflawni manwl ar gyfer y datblygiad yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y datblygiad yn gweithredu gan gydymffurfio'n llwyr â'r manylion cymeradwy.
- 7) Ni chaniateir i unrhyw ddatblygiad ddechrau hyd nes bod Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) manwl wedi cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r CTMP.
- 8) Ni chaniateir i'r datblygiad ddechrau hyd nes bod manylion y gwelliannau arfaethedig i gerddwyr ar hyd yr A4066 Old Tenby Road, fel y'u hamlinellir yn y Crynodeb o Aseiad Trafnidiaeth ADL dyddiedig 9 Mai 2019, wedi cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Ni chaniateir i'r datblygiad gael ei ddefnyddio hyd nes bod y gwelliannau wedi cael eu hadeiladu yn unol â'r manylion cymeradwy.

- 9) Ni chaniateir i'r datblygiad ddechrau hyd nes bod cynllun ar gyfer uwchraddio Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Sanclêr, i ganiatáu iddo ymdopi â'r gollyngiadau brwnt o'r datblygiad heb gynyddu'r perygl o dorri'r caniatâd gollwng ar gyfer y gwaith trin, wedi cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Ni chaniateir i'r datblygiad gael ei ddefnyddio hyd nes bod y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff wedi cael ei uwchraddio yn unol â'r manylion cymeradwy.
- 10) Ni chaniateir i'r datblygiad ddechrau hyd nes bod manylion cynllun ar gyfer gwaredu dŵr brwnt a dŵr wyneb wedi cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gytuno ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y cynllun yn cael ei weithredu yn unol â'r manylion cymeradwy cyn i'r datblygiad gael ei ddefnyddio ac yn cael ei gadw wedi hynny.
- 11) Bydd holl weithrediadau'r safle yn cael eu cynnal yn unol â'r wybodaeth gymeradwy ynghylch cyfyngu a gwarchod y dirwedd, fel y'i diffinnir yn yr adroddiad datblygiad coedyddiaeth, dyddiedig mis Ebrill 2019, a'r cynllun cysyniad tirweddu, dyddiedig mis Mawrth 2019 a dderbyniwyd ar 7 Mai 2019. Bydd unrhyw weithrediadau adeiladu a/neu fynediad o fewn y parth(au) gwahardd adeiladu diffiniedig (CEZ) yn gyfyngedig i'r rhai a gynhelir yn unol ag argymhellion BS5837. Rhoddir y CEZ(s) ar waith yn llawn cyn i unrhyw waith sy'n gysylltiedig â'r datblygiad ddechrau; ac fe'u cynhelir wedi hynny yn eu cyfanrwydd, drwy gydol yr holl waith datblygu a hyd nes bod yr holl offer, peiriannau a deunyddiau sy'n weddill wedi cael eu symud ymaith o'r safle. Os bydd unrhyw elfennau presennol o'r dirwedd, neu ran ohonynt, a amlygwyd i'w gwarchod sydd, o fewn cyfnod o 5 mlynedd ar ôl y gwaith datblygu yn cael eu symud ymaith, yn marw, yn mynd yn afiach, yn cael eu difrodi neu'n ddiffygiol fel arall, i'r fath raddau, ym marn yr awdurdod cynllunio lleol, nad yw swyddogaeth yr elfen dirweddu yn cael ei chyflawni mwyach o ran y gymeradwyaeth gynllunio hon, byddant yn cael eu hamnewid yn ystod y tymor plannu nesaf ag elfennau cyfnewid o fanyleb a maint tebyg ac yn y cyfryw leoliadau ag y cytunir arnynt yn ysgrifenedig â'r awdurdod cynllunio lleol, ac yn cael eu cynnal yn yr un modd wedi hynny am gyfnod arall o bum mlynedd.
- 12) Ni fydd unrhyw waith datblygu na chlirio safle yn digwydd hyd nes bod Cynllun Dylunio Tirwedd (LDS) manwl a chynhwysfawr wedi cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd yr LDS yn cyflwyno cynigion sy'n integreiddio amcanion a swyddogaethau tirwedd, ecolegol a bioamrywiaeth priodol sy'n benodol i'r safle mewn modd effeithiol. Bydd yr LDS yn cydymffurfio â chanllawiau perthnasol a ddarperir gan yr awdurdod cynllunio lleol ac egwyddorion y wybodaeth dirweddol ac ecolegol a gyflwynwyd yn yr adroddiad datblygiad coedyddiaeth, dyddiedig mis Ebrill 2019, a'r cynllun cysyniad tirweddu, dyddiedig mis Mawrth 2019 a dderbyniwyd ar 7 Mai 2019, ac Adran 6.2 yr Aseiad Ecolegol, dyddiedig mis Gorffennaf 2017 a dderbyniwyd ar 14 Tachwedd 2017. Bydd yr LDS cymeradwy yn cael ei weithredu'n llawn cyn i'r datblygiad gael ei feddiannu. Bydd unrhyw elfennau tirwedd newydd sy'n cael eu hadeiladu, eu plannu neu eu hadu; neu elfennau presennol o'r dirwedd a gedwir; yn unol â'r LDS cymeradwy, o fewn cyfnod o 5 mlynedd ar ôl gweithredu sy'n cael eu symud ymaith; yn marw; yn mynd yn afiach; yn cael eu difrodi neu'n ddiffygiol fel arall, i'r fath raddau, ym marn yr awdurdod cynllunio lleol, nad yw swyddogaeth yr elfen dirweddu yn cael ei chyflawni mwyach o ran y gymeradwyaeth gynllunio hon, byddant yn cael eu hamnewid yn ystod y tymor plannu neu hadu nesaf ag elfennau cyfnewid o fanyleb a maint tebyg.

- 13) Ni chaniateir i lefel gronol y sŵn sy'n dod o'r holl offer/peiriannau sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig fynd yn fwy na'r lefel sŵn cefndir bresennol, a bennir wrth yr eiddo agosaf sy'n sensitif i sŵn neu wrth leoliad arall y mae'r awdurdod yn ystyried ei fod yn addas. Diffinnir y lefelau sŵn cefndir fel a ganlyn:
- 49dB rhwng 07:00 a 19:00 o'r gloch
 - 40dB rhwng 19:00 a 23:00 o'r gloch
 - 34dB rhwng 23:00 a 07:00 o'r gloch

Bydd y mesuriadau a'r asesiadau'n cael eu gwneud yn unol â BS 4142: 2014 Dulliau ar gyfer graddio ac asesu sŵn diwydiannol a masnachol; bydd lefelau sŵn cefndir yn cael eu mynegi fel LA90 1hr a bydd lefelau sŵn amgylchynol yn cael eu mynegi fel Laeq 1hr.

- 14) Bydd yr offer yn cael ei ddylunio'n addas er mwyn sicrhau nad yw'n dangos unrhyw nodweddion y mae angen cywiro eu cymeriad fel y diffinnir yn BS 4142: 2014 Dulliau ar gyfer graddio ac asesu sŵn diwydiannol a masnachol, o ganlyniad i unrhyw nodweddion tonyddiaeth, nodweddion ergydiol, nodweddion penodol eraill a/neu ysbeidioldeb yn fewnol neu'n allanol i unrhyw eiddo sy'n sensitif i sŵn.
- 15) Ar gais ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol, bydd y gweithredwr, o fewn cyfnod o 1 mis, yn cynnal a chyflwyno i'r awdurdod asesiad sŵn sy'n cydymffurfio â BS 4142: 2014 Dulliau ar gyfer graddio ac asesu sŵn diwydiannol a masnachol, er mwyn pennu a yw'r sŵn sy'n dod o'r datblygiad yn cydymffurfio ag amodau 13 a 14 uchod. Bydd yr asesiad yn cael ei gynnal dan oruchwyliaeth yr Awdurdod Lleol. Os na chydymffurfir ag Amodau 13 a 14, bydd yr asesiad a gyflwynir hefyd yn cynnwys mesurau lliniaru i sicrhau y cydymffurfir â'r amodau hyn. Bydd y datblygiad yn gweithredu wedi hynny yn unol â'r manylion cymeradwy.
- 16) Bydd yr offer sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig fel yr amlinellir yn yr Asesiad o Effaith Sŵn, dyddiedig mis Mai 2018 a dderbyniwyd ar 22 Mai 2018, a gosodiad to HVAC McDonalds gyda lluniad gwanhau (02), a dderbyniwyd ar 9 Gorffennaf 2019, a bydd yn gwanhau sŵn i'r lefelau canlynol:

Eitem Offer	Lleihad sŵn sy'n ofynnol	
	Dydd (0700-1900)	Nos (1900-0700)
• AC01C1 MUZ-SF25VE	5 dB	5 dB
• AC02C1 MUZ-SF25VE	5 dB	5 dB
• S1 IDF2BDX150	25 dB	30 dB
• S2 IDF2BDX150	25 dB	30dB
• E1 BW10-500	15 dB	15dB
• EF1 BW10-500	Dd/B	8 dB

- 17) Ni chaniateir i unrhyw ddatblygiad ddigwydd hyd nes bod archaeolegydd cymwysedig a chymwys wedi cyflwyno cynllun ymchwilio ysgrifenedig (WSI) i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd yr WSI hwn yn disgrifio gwahanol gamau'r gwaith ac yn dangos y darparwyd adnoddau llawn ac amser digonol iddo. Ar ran yr awdurdod cynllunio lleol, bydd eu cynghorwyr archaeolegol (DAT DM) yn monitro pob agwedd ar y gwaith hwn hyd at ryddhau'r amod yn derfynol. Ni ystyrir bod y gwaith hwn wedi'i gwblhau hyd nes

bod pob agwedd ar yr WSI wedi derbyn sylw a'r adroddiad terfynol wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo.

- 18) Ni chaniateir i unrhyw ddatblygiad a gymeradwyir gan y caniatâd hwn ddechrau hyd nes bod Datganiad o Ddull Atal Llygredd (PPMS), sy'n manylu ar yr holl fesurau atal llygredd sy'n angenrheidiol ar gyfer cam adeiladu a gweithredol y datblygiad, wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd manylion y PPMS yn cael eu gweithredu fel y'u cymeradwywyd. Mae'n rhaid i'r PPMS gynnwys y canlynol o leiaf:
- Cyfleusterau storio ar gyfer yr holl danwyddau, olewau a chemegion.
 - Unrhyw nodweddion dŵr ar y safle a sut y byddant yn cael eu gwarchod.
 - Sut y bydd unrhyw gyrsiau dŵr yn cael eu croesi neu gadarnhad nad yw hyn yn berthnasol.
 - Unrhyw ffynonellau llygredd (gan gynnwys silt), llwybrau posibl i'r llygredd hwnnw fynd i mewn i unrhyw gyrsiau dŵr yng nghyffiniau'r safle a mesurau rheoli llygredd priodol i'w gweithredu ar y safle.
 - Manylion ynghylch natur, math a swm y deunyddiau sydd i'w cludo i mewn i'r safle.
 - Mesurau ar gyfer ymdrin ag unrhyw ddeunydd halogedig (gwastraff dymchwel neu wastraff cloddio).
 - Manylion y mathau o wastraff a fydd yn cael eu cynhyrchu a sut y byddant yn cael eu rheoli.
 - Manylion unrhyw rywogaethau goresgynnol ar y safle a sut y byddant yn cael eu rheoli.
 - Amlygu unrhyw wasanaethau claddedig, fel carthffosydd budr, fel y gellir eu gwarchod.
 - Manylion cysylltiadau argyfwng, er enghraifft llinell gymorth Llygredd Cyfoeth Naturiol Cymru 0300 065 3000.

Rhesymau dros yr amodau:

- 1) Mae'n rhaid ei osod yn unol ag Adran 91 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
- 2) I ddiffinio graddau'r caniatâd.
- 3)-8) Er mwyn diogelwch ar y priffyrdd (polisiau GP1 a TR3 y CDLI).
- 9)-10) I sicrhau bod cynllun draenio priodol yn cael ei osod ac i atal llygru'r amgylchedd (polisiau GP1, EP2 ac EP3 y CDLI).
- 11)-12) I warchod nodweddion tirweddol ac ecolegol presennol a sicrhau bod cynllun tirweddol priodol yn cael ei ddarparu, ei sefydlu a'i gynnal (polisi GP1 y CDLI).
- 13)-16) Er mwyn diogelu amwynder preswyl (polisi GP1 y CDLI).
- 17) I warchod buddiannau'r amgylchedd hanesyddol ar yr un pryd â galluogi'r datblygiad (polisiau EQ1 ac SP13 y CDLI).
- 18) I atal llygru'r amgylchedd (polisiau GP1 ac EP3 y CDLI).